


Healing Services
Gwasanaethau Iacháu

Yr Eglwys yng Nghymru
The Church in Wales



Gwasanaethau Iacháu

GWASANAETHAU IACHÁU – STRWYTHUR

Fel rheol, ni ddylai Gwasanaethau Iacháu gymryd lle prif wasanaeth y Sul.

*Nodir â * eitemau y gellir eu hepgor.*

STRWYTHUR (PAN WEINYDDIR Y CYMUN BENDIGAID)

1 DYFOD YNGHYD

Cyfarchiad
*Gweddi
Edifeirwch
*Gloria
Colect

2 CYHOEDDI'R GAIR

Darlleniad o'r Hen Destament
Salm
Darlleniad o'r Testament Newydd
Efengyl
Pregeth

3 YR YMBILIAD

Litani Iacháu neu ymbiliau addas eraill

4 ARDDODI DWYLO AC ENEINIO

Arddodi Dwylo ar y rhai nad ydynt i'w heneinio
Gweddi o ddiolchgarwch uwchben yr olew
Arddodi Dwylo ar y rhai sydd i'w heneinio
Eneinio
Y Tangnefedd

5 Y DIOLCH

6 Y CYMUN

7 YR ANFON ALLAN

Y Fendith
Yr Anfon Allan

HEALING SERVICES – STRUCTURE

Healing Services should not normally take the place of the main service on a Sunday.

*Optional items are marked with a *.*

STRUCTURE (WHEN THE HOLY EUCHARIST IS CELEBRATED)

1 THE GATHERING

Greeting
*Prayer
Penitence
*Gloria
Collect

2 THE PROCLAMATION OF THE WORD

Old Testament reading
Psalm
New Testament reading
Gospel
Sermon

3 THE INTERCESSION

Litany of Healing or other appropriate petitions.

4 THE LAYING ON OF HANDS AND ANOINTING

Laying of Hands on those not to be anointed.
Prayer of thanksgiving over the oil.
Laying of Hands on those to be anointed.
Anointing.
The Peace.

5 THE THANKSGIVING

6 THE COMMUNION

7 THE SENDING OUT

Blessing
The Dismissal

Gwasanaethau Iacháu

STRWYTHUR

(PAN NA WEINYDDIR Y CYMUN BENDIGAID)

1 DYFOD YNGHYD

Cyfarchiad

*Gweddi

Edifeirwch

*Gloria

Colect

2 CYHOEDDI'R GAIR

Un darlenniad neu fwy o'r Ysgrythur Lân
Pregeth

3 YR YMBILIAD

Litani Iacháu neu ymbiliau addas eraill
Gweddi'r Arglwydd

4 ARDDODI DWYLO AC ENEINIO

Arddodi Dwylo ar y rhai nad ydynt i'w heneinio
Gweddi o ddiolchgarwch uwchben yr olew
Arddodi Dwylo ar y rhai sydd i'w heneinio
Eneinio
*Y Tangnefedd

5 YR ANFON ALLAN

Y Fendith

Yr Anfon Allan,

y Gras *neu* ddiwedd priodol arall

STRUCTURE

(WHEN THE HOLY EUCHARIST IS NOT CELEBRATED)

1 THE GATHERING

Greeting
*Prayer
Penitence
*Gloria
Collect

2 THE PROCLAMATION OF THE WORD

One or more readings from Holy Scripture.
Sermon

3 THE INTERCESSION

Litany of Healing or other appropriate petitions.
The Lord's Prayer.

4 LAYING ON OF HANDS AND ANOINTING

Laying of Hands on those not to be anointed.
Prayer of thanksgiving over the oil.
Laying of Hands on those to be anointed.
Anointing.
* The Peace

5 THE SENDING OUT

Blessing
The Dismissal,
the Grace *or* another appropriate ending.

NODIADAU A THESTUNAU DETHOL

1 Y DOD YNGHYD

Ar ôl y cyfarchiad, gall y llywydd gyflwyno'r gwasanaeth yn y geiriau a ganlyn neu mewn geiriau addas eraill

Dangosodd ein Harglwydd Iesu Grist drugaredd i'r claf o gorff, meddwl ac ysbryd, trwy faddau iddynt eu pechodau, iacháu eu llesgedd a'u hadfer i gyflawnder bywyd. Trwy glwyfau Crist fe'n hiachawyd ni; trwy ei ddiodefaint a'i atgyfodiad gorchfygodd ddiodefaint a marwolaeth a rhoi inni addewid bywyd tragwyddol. Y mae Sant Paul yn ein hatgoffa ein bod yn amddifad o ogoniant Duw oherwydd inni ddifwyno ei ddelw arnom trwy bechod, ond yn ei drugaredd cariadus y mae Duw yn ein hadfer trwy ei ras wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd.

Mewn ufudd-dod ffyddlon, y mae'r Eglwys yn rhannu'r weinidogaeth hon o adfer ac iacháu. Yng ngrym yr Ysbryd Glân, daeth yr Apostolion â chysur ac iachâd i rai dioddefus trwy weddïo, arddodi dwylo ac eneinio yn enw'r Arglwydd. Ymddiriedwyd hyn i ni hyd oni ddaw Crist drachefn ac ni bydd marw mwyach, na galaru nac wylo na phoen. Mewn diogel obaith am y greadigaeth newydd yng Nghrist deurn â'n gweddïau a'n hedifeirwch gerbron Duw, gan ofyn iddo am yr iachâd, y cymod a'r tangnefedd a berthyn i fywyd ei Deyrnas.

Gellir hepgor y gweddïau yn Trefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004 sy'n dechrau â'r geiriau Dad y Gogoniant a Dad nefol.

NOTES AND SELECTED TEXTS

1 THE GATHERING

After the greeting, the president may introduce the service using the following or other suitable words

Our Lord Jesus Christ showed compassion to the sick in body mind and spirit, forgiving their sins, healing their infirmities, restoring them to wholeness. By Christ's wounds we have been healed; in his passion and resurrection he defeated suffering and death, giving us the promise of eternal life. Saint Paul reminds us that we fall short of the glory of God, having marred His image in us through sin but in his loving kindness God restores us by His grace being justified by by faith.

In faithful obedience, the Church shares this ministry of restoration and healing. In the power of the Holy Spirit, the Apostles brought comfort and healing to the suffering through prayer, the laying on of hands and anointing in the name of the Lord. This is entrusted to us until such time as Christ shall come again when death shall be no more and mourning, crying and pain shall cease. In firm hope of the new creation in Christ we bring to God our prayers and penitence, asking Him for healing, reconciliation and peace which belong to the life of His Kingdom.

The prayers beginning Father of Glory and Heavenly Father from An Order for the Holy Eucharist 2004 may be omitted.

Gwasanaethau Iacháu

Gellir defnyddio'r Kyrie estynedig a ganlyn.

Arglwydd Iesu, yr wyt yn iacháu'r claf: Arglwydd, trugarha.

Arglwydd, trugarha.

Arglwydd Iesu, yr wyt yn maddau i bechaduriaid: Crist, trugarha.

Crist, trugarha.

Arglwydd Iesu, yr wyt yn dy roddi dy hun i'n hiacháu a'n cryfhau: Arglwydd, trugarha.

Arglwydd, trugarha.

Gellir defnyddio un o'r colectau allan o'r Weinidogaeth i'r Claf yn Trefn ar gyfer y Cymun Bendigaid neu'r colect a ganlyn.

Hollalluog Dduw,
a roddaist i ni, trwy atgyfodiad dy Fab,
fuddugoliaeth dros ddiodefaint a marwolaeth,
tywallt dy Ysbryd Glân ar dy bobl,
fel, a ninnau'n gryf ein ffydd a'n gobraith,
yr adferer ni ar dy ddelw ac yr adlewyrchom dy
ogoniant;
trwy Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi
yn undod yr Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr a byth. **Amen.**

2 CYHOEDDI'R GAIR

*Dylid dewis darlleniadau addas allan o Atodiad 8
Gweinidogaeth i'r Claf.*

*Os gweinyddir y Cymun Bendigaid, dylid darllen o leiaf
ddau ddarlleniad, a dylai'r ail fod o'r Efengylau.*

Onid oes Cymun Bendigaid, dylid bod o leiaf un darlleniad.

The following extended Kyrie may be used.

Lord Jesus, you heal the sick: Lord, have mercy.

Lord, have mercy.

Lord Jesus, you forgive sinners: Christ, have mercy.

Christ, have mercy.

Lord Jesus, you give yourself to heal us and bring us strength: Lord, have mercy.

Lord, have mercy.

One of the collects from the Order for the Celebration of the Holy Eucharist in The Ministry to the Sick, or the following collect, may be used.

Almighty God,
who, by the resurrection of your Son,
gave us a sign of victory over suffering and death;
pour out your Holy Spirit upon your people,
that, strong in faith and hope,
we may be restored to your image and reflect your
glory;
through Jesus Christ, your Son, our Lord,
who is alive and reigns with you
in the unity of the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

2 THE PROCLAMATION OF THE WORD

Appropriate readings should be selected from Appendix 8 of The Ministry to the Sick,

If the Holy Eucharist is being celebrated, at least two passages should be read, of which the second should be from the Gospels.

If the Holy Eucharist is not being celebrated, there should be at least one reading.

3 YR YMBILIAD

Gellir defnyddio'r Litani Iacháu a ganlyn. Gellir cynnwys erfyniadau ychwanegol, yn cynnwys enwau.

Dduw Dad,
Trugarha wrthym.

Dduw Fab,
Trugarha wrthym.

Dduw Ysbryd Glân,
Trugarha wrthym.

Y Drindod sanctaidd a bendigaidd,
Trugarha wrthym ac achub ni.

Dros bawb sy'n ddiodefus o gorff,
Clyw ein gweddi, Arglwydd da.

Dros bawb sy'n ofidus mewn meddwl neu
ysbryd,
Clyw ein gweddi, Arglwydd da.

Dros bawb a lethwyd gan bechod,
Clyw ein gweddi, Arglwydd da.

Dros bawb ohonom sy'n amddifad o'th ogoniant,
Clyw ein gweddi ac achub ni.

Am nerth i ddyfalbarhau,
Clyw ein gweddi, Arglwydd da.

Am obaith i'n cynnal,
Clyw ein gweddi, Arglwydd da.

3 THE INTERCESSION

The following Litany of Healing may be used. Additional petitions, including names, may be included.

God the Father,
have mercy on us.

God the Son,
have mercy on us.

God the Holy Spirit,
have mercy on us.

Holy and blessed Trinity,
have mercy upon us and save us.

For those who suffer in body
Hear us, good Lord.

For the distressed in mind and spirit
Hear us, good Lord.

For those burdened by sin
Hear us, good Lord.

For all of us who fall short of your glory
Hear us and save us.

For strength to endure
Hear us, good Lord.

For hope to sustain
Hear us, good Lord.

Gwasanaethau Iacháu

Am ras yr Ysbryd Glân,
Clyw ein gweddi, Arglwydd da.

Dros a phawb ohonom sydd yma,
Clyw ein gweddi ac achub ni.

Yn dy gariad mawr edrych mewn trugaredd ar dy
bobl,
Clyw ein gweddiâu, maddau ein pechodau a
dwg ni i fywyd tragwyddol.
Arglwydd, clyw ni a thrugarha.

*Oni weinyddir y Cymun Bendigaid, dywedir Gweddï'r
Arglwydd yn syth ar ôl yr Ymbiliad.*

For the grace of the Holy Spirit
Hear us, good Lord.

For and for all of us present
Hear us and save us.

In your great mercy look with compassion on
your people,
hear our prayers, pardon our sins and bring us
to eternal life.
Lord, hear us and have mercy.

*If the Holy Eucharist is not being celebrated, the Lord's
Prayer is said straight after the Intercession.*

4 ARDDODI DWYLO AC ENEINIO

Os arddodir dwylo yn unig, defnyddier Adran A.

Os arddodir dwylo ac eneinio, defnyddier Adran B.

A. Arddodi Dwylo

Defnyddir y geiriau a ganlyn, neu cedwir distawrwydd.

E, yn enw Duw Dad, rhyddhaer di o’th ddiodefaint ac adferer dy iechyd yn unol â’i ewyllys sanctaidd.

Yn enw Duw Fab, llanwer di â bywyd newydd.

Yn enw Duw Ysbryd Glân, iachaer di oddi mewn a bydded iti dderbyn y tangnefedd sydd uwchlaw pob deall. **Amen.**

B. Arddodi Dwylo ac Eneinio

Deuir ag olew i’r llywydd.

Os yw’r olew i gael ei fendithio, defnyddia’r llywydd y geiriau hyn

Dad nefol, rhoddwr iechyd ac iachawdwriaeth, anfon dy Ysbryd Glân ar yr olew hwn fel, megis yr eneiniodd dy sanctaidd apostolion lawer a oedd yn glaf a’u hiacháu, y cyfanner pawb sydd mewn ffydd ac edifeirwch yn derbyn yr eneiniaid sanctaidd hwn, a’u hadfer, os dyna dy ewyllys di, i iechyd, yn enw Iesu Grist, ein Gwaredwr a’n Prynwr. **Amen.**

4 LAYING ON OF HANDS AND ANOINTING

If the laying on of hands alone is to be administered. Use Section A. If the laying on of hands to be accompanied by anointing, use Section B.

A. The Laying on of Hands.

The following words are used, or silence is kept.

N, in the name of God the Father, may you be released from your suffering and may your health be restored according to his holy will.

In the name of God the Son, may you be filled with new life.

In the name of God the Holy Spirit, may you receive inward health and the peace that passes all understanding.
Amen.

B. The Laying on of Hands and Anointing.

Oil is brought to the president.

If the oil of healing is to be blessed, the president uses these words

Heavenly Father, giver of health and salvation, send your Holy Spirit on this oil that, as your holy apostles anointed many that were sick and healed them, so those who in faith and repentance receive this holy unction may be made whole and, if it be your will, restored to health, in the name of Jesus Christ, our Saviour and Redeemer.
Amen.

Gwasanaethau Iacháu

Os bendithiwyd yr olew eisoes, dywed y llywydd

Gweddïwn

Bendigedig fyddo Duw Dad,
a anfonodd ei Fab i iacháu'r cenhedloedd.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bendigedig fyddo Crist ein Harglwydd,
a iachaodd y cleifion a'n gwared o bechod.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Bendigedig fyddo'r Ysbryd Glân,
sy'n ein heneinio'n wastadol â gras a grym.
Bendigedig fyddo Duw am byth.

Dduw bendigaid, Drindod sanctaidd,
Edrych yn drugarog ar dy weision sydd i'w heneinio;
cysura hwy, a dyro iddynt ryddhad.
**Dduw sanctaidd, sanctaidd a chryf, sanctaidd ac
anfarwol,
Trugarha wrthym.**

*Y mae'r rhai sydd i'w heneinio yn derbyn yn awr yr arddodiad
dwylo*

E, yn enw Duw Dad, rhyddhaer di o'th ddioddefaint ac
adferer dy iechyd yn unol â'i ewyllys sanctaidd.
Amen.

If the oil has been previously blessed, the president says

Let us pray

Blessed be God the Father,
who sent his Son for the healing of the nations
Blessed be God for ever.

Blessed be Christ our Lord
who healed the sick and saved us from sin
Blessed be God for ever.

Blessed be the Holy Spirit
who continually anoints us with grace and power
Blessed be God for ever.

Blessed God, Holy Trinity
look with mercy on your servants to be anointed
comfort them and set them free
**Holy God, holy and strong, holy and immortal
Have mercy on us.**

Those who are to be anointed now receive the laying on of hands

N, in the Name of God, the Father, the Son, and the Holy Spirit, may you be released from your suffering and may your health be restored according to his holy will. **Amen.**

Gwasanaethau Iacháu

*Y mae'r offeiriad yn eneinio pob un ar y talcen a'r ddwy law,
gan ddweud*

Megis yr eneiwn di oddi allan â'r olew sanctaidd hwn,
eneinied felly ein Tad nefol di oddi mewn
â dawn yr Ysbryd Glân,
fel yr iachaer di o bob llesgedd
corff, meddwl ac ysbryd.
Cysured y Tad trugarog di,
rhodded i ti hyder yn ei drugaredd
a'th gadw bob amser yn ei dangnefedd a'i ddiogelwch,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*Os gweinyddir y Cymun Bendigaid, rhennir y Tangnefedd. Oni
weinyddir y Cymun, gellir ei hepgor.*

*Gellir cyflwyno'r Tangnefedd â brawddeg briodol. Y mae
brawddegau 5, 9, 11, 12, 17, 18, 19 a 22 yn
Cymun Bendigaid 2004 i gyd yn addas i'w defnyddio mewn
Gwasanaethau Iacháu.*

5 Y DIOLCH

Defnyddir Rhaglith 31 yn Cymun Bendigaid 2004.

6 Y CYMUN

The priest anoints each one on the forehead and both hands, saying

As we anoint you outwardly with this holy oil,
so may our heavenly Father anoint you inwardly
with the gift of the Holy Spirit,
that you may receive healing of all your infirmities
of body, mind and spirit.
May the merciful Father comfort you,
give you confidence in his mercy
and keep you always in peace and safety,
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

If the Holy Eucharist is being celebrated, the Peace is given. Its use is optional when the Holy Eucharist is not being celebrated.

The Peace may be introduced with an appropriate sentence. Sentences 5, 9, 11, 12, 17, 18, 19 and 22 from Holy Eucharist 2004 are all suitable for use at Healing Services.

5 THE THANKSGIVING

Preface 31 from Holy Eucharist 2004 is used.

6 THE COMMUNION

7 YR ANFON ALLAN

Os gweinyddwyd y Cymun Bendigaid, gellir defnyddio un o'r gweddiâu ôl-gymun yn y Weinidogaeth i'r Claf yn Trefn ar gyfer y Cymun Bendigaid. Yna, bydd y gwasanaeth yn diweddu gyda'r Fendith a'r Anfon Allan.

Oni weinyddwyd y Cymun Bendigaid, bydd y gwasanaeth yn diweddu gyda'r Fendith a'r Anfon Allan, y Gras neu ddiwedd arall addas.

Defnyddir y fendith a ganlyn, neu fendith arall briodol.

Bydded i dangnefedd Duw sydd uwchlaw pob deall gadw eich calonnau yng ngwybodaeth a chariad Duw, a'i Fab Iesu Grist: a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Neu

Bydded i Dduw'r trugaredd dy amgylchynu â'i gariad.
Amen.

Bydded croes Crist yn arwydd iti o fuddugoliaeth.
Amen.

Bydded i'r Ysbryd Glân dy eneinio'n wastadol â gras iachael.
Amen.

Bydded i Dduw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, dy gadw a'th gynnal yn awr a phob amser.
Amen.

7 THE SENDING OUT

If the Holy Eucharist has been celebrated, one of the post-communions prayers from the Order for the Holy Eucharist in The Ministry to the Sick may be used. The service then ends with the Blessing and Dismissal.

If the Holy Eucharist has not been celebrated, the service ends with the Blessing and the Dismissal, the Grace or another suitable ending.

One of the following, or another appropriate blessing, is used.

The peace of God which is beyond all understanding guard your hearts in the knowledge and love of God, and of his Son Jesus Christ: and the blessing of God almighty, the Father, the Son and the Holy Spirit be with you and remain with you always. **Amen.**

Or

May the God of compassion surround you with his love.
Amen.

May the cross of Christ be to you a sign of victory
Amen.

May the Holy Spirit continually anoint you with healing grace
Amen.

May God, the Father, the Son and the Holy Spirit, guard and preserve you now and always.
Amen.

© Church in Wales Publications 2008 -Gwasg Yr Eglwys yng Nghymru 2008
Caerdydd - Cardiff.

First published July 2008. All rights reserved. No part of this publication may
be reproduced in any form or format without prior consent of the Church in
Wales.

Cyhoeddwyd yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2008. Cedwir pob hawl.

Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na fformat heb ganiatâd
yr Eglwys yng Nghymru.

Printed on recycled materials 